# Gŵyl Fwyd - Gwirfoddolwyr Digwyddiadau
# Sain Fagan: Amgueddfa Werin Cymru

**Pwrpas y rôl:** Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i roi help llaw yn ein Gŵyl Fwyd yn Sain Ffagan ar **12 a/neu 13 o Fedi.**

Bydd cyfrifoldebau gwirfoddolwyr yn cynnwys cefnogi staff digwyddiadau gyda paratoi, helpu i gyfeirio ymwelwyr ar draws safle'r ŵyl, stiwardio ardaloedd prysur, helpu gyda gweithgareddau bach, cadw ardaloedd yn lân ac yn daclus.

Bydd sesiwn friffio yn Sain Ffagan ar **Dydd Sadwrn, 5 o Fedi, 10:30 – 1400**.

Mae'r rôl hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddai'n berffaith i ddysgwyr Cymraeg sy'n dymuno ymarfer.

**Lleoliad:** Sain Fagan: Amgueddfa Werin Cymru — **Adran**: Digwyddiadau

**Oedran**: 18+ — **Dyddiad Cau** : 28 Awst

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sy'n barod i dorchi llewys.
- sy'n mwynhau helpu eraill i ddysgu ac ymchwilio
- sy' hapus i wirfoddoli yn yr awr iach

**Ystyriaethau:** Efallai y bydd gofyn i chi wirfoddoli dan do yn ein hadeiladau hanesyddol a/neu yn yr awyr agored.Rydym yn hapus i deilwra rolau i anghenion a galluoedd gwirfoddolwyr.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus i Sain Ffagan, ond mae'r amlder yn dymhorol.

**Oriau ac Ymrwymiad**: Byddai'r rôl wirfoddoli hon yn addas i rywun sydd ar gael ar gyfer ddiwrnod **llawn (9:30- 17:00).** Darperir seibiannau. Cysylltwch â ni os hoffech drafod yr oriau ymhellach.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002**.**

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Rydym ni'n cynnig i wirfoddolwyr:
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis a'n arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

